Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig: Y System Fudd-daliadau yng Nghymru

Swyddogaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - rôl statudol annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru - yw diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, gwneud safiad a siarad ar eu rhan er mwyn iddynt allu manteisio ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, a sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl o niwed yn cael eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor ac yn ystyried bod darparu'r system nawdd cymdeithasol yng Nghymru yn faes polisi cyhoeddus sy'n haeddu rhagor o graffu a sylw.

Credyd Pensiwn

Yng Nghymru, mae tlodi incwm cymharol ymysg pobl hŷn yn dal ar y lefel uchaf o holl wledydd eraill y DU[1] ac mae'r Comisiynydd wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i wneud mwy i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hannog a'u helpu i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo. Amcangyfrifir bod hyd at £214m o Gredyd Pensiwn heb gael ei hawlio yng Nghymru yn 2018/19.[2]

Mae'r tanhawlio hwn yn dal i danseilio'r ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru ac mae'r Comisiynydd yn dal i bwyso am wneud mwy ar lefel y DU ac ar lefel Cymru i annog pobl i fanteisio ar yr hawl hon a gwella bywydau rhai o'r bobl hŷn dlotaf a mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Astudiaeth Achos 1: Cynyddu'r nifer sy'n hawlio Credyd Pensiwn

Ym mis Hydref 2019, gweithiodd y Comisiynydd yn agos gyda Trafnidiaeth Cymru i gynnwys gwybodaeth am Gredyd Pensiwn gyda'r holl gardiau bws rhatach newydd oedd yn cael eu hanfon at bawb dros 60 oed yng Nghymru. Cafodd yr ymgyrch hon, y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w chefnogi'n ariannol, ei darparu i dros 500,000 o bobl hŷn yng Nghymru, gyda 390,000 o'r rhain yn cael eu darparu ym mis Hydref a mis Tachwedd 2019.

Mae ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos fod nifer yr hawlwyr newydd yn ystod y cyfnod hwn 26% yn uwch na'r cyfartaledd fesul chwarter dros y ddwy flynedd diwethaf.[3] Roedd y cynnydd hwn yn nifer yr hawlwyr newydd werth dros **£10,000 yr wythnos** i bobl hŷn ledled Cymru, a fyddai'n **£500,000 ychwanegol dros flwyddyn** i gefnogi ein cymunedau tlotaf.[4]

Astudiaeth Achos 2: Gweithgor Cynyddu Incwm a Manteisio ar Fudd-daliadau

Yn ddiweddar, sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor Cynyddu Incwm a Manteisio ar Fudd-daliadau gydag aelodaeth traws-sector.

Lansiodd y Grŵp Ymgyrch Ymwybyddiaeth o Fudd-dal Lles ar draws sawl sianel gan arwain at bobl yn hawlio **£651,504** yn ychwanegol.

Mae dwy ymgyrch arall wedi cael eu treialu hefyd, un yn canolbwyntio ar gymunedau BAME gan gyfuno partneriaid mynediad cymunedol sy'n cysylltu â phartneriaid cyngor a'r llall drwy wasanaethau rhanbarthol Cyngor ar Bopeth yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd targed gwahanol a wnaeth ymgysylltu â dros 1440 o bobl yn ystod y cynllun peilot chwe mis. Cyfrifwyd bod cyfanswm yr incwm wedi cynyddu **£2,468.052** ar draws ystod o hawliadau.

Yn dilyn argymhellion ymchwiliad blaenorol Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd, *Budd-daliadau yng Nghymru: Opsiynau i'w cyflawni'n well,* mae'r Gweithgor yn datblygu siarter a fydd yn sail i ddylunio a darparu system budd-daliadau i Gymru.

Mae'n amlwg o'r ymyriadau hyn bod modd cyrraedd pobl hŷn a'u hannog i fanteisio ar hawliau ariannol os yw'r negeseuon yn glir a phenodol ac y dylai unrhyw ymgyrchoedd yn y dyfodol fod yn gyfuniad o negeseuon cenedlaethol ac ymyriadau lleol.

Mae hawlio Credyd Pensiwn yn gallu cyfrannu'n sylweddol at wella sefyllfa ariannol pobl hŷn y mae eu hincwm yn is na'r trothwy i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Pensiwn. Ond hyd yn oed gyda'r hawliad, mae'n debygol y bydd llawer yn dal i gael eu dal mewn tlodi incwm cymharol, ac o ystyried bod eu hincwm yn sefydlog, maen nhw'n debygol o aros mewn tlodi incwm cymharol am weddill eu hoes. Mae menywod mewn perygl penodol o gael eu dal fel hyn gan fod ymchwil yn awgrymu nad oes gan 30% o fenywod unrhyw gynlluniau pensiwn preifat ac y byddan nhw'n dibynnu'n llwyr ar Bensiwn y Wladwriaeth ar ôl ymddeol.[5]

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a ddylid gwneud gwaith i brofi ar ba lefelau y dyfernir Credyd Pensiwn i'r rheini y mae Pensiwn y Wladwriaeth yn unig incwm iddynt o'i gymharu â mesurau eraill fel Safon Isafswm Incwm JRF.[6] Byddai cyfrifiad syml yn seiliedig ar y safon honno'n awgrymu y byddai un person hŷn angen incwm o £12,772 i gael safon byw dderbyniol, sy'n sylweddol uwch nag incwm blynyddol presennol rhywun sy'n hawlio Credyd Pensiwn.[*]

Mae Credyd Pensiwn hefyd yn gallu cynnig mynediad at fathau eraill o gymorth, gan gynnwys trwydded deledu am ddim (ar gyfer pobl dros 75 oed) a chredydau tai, yn ogystal â'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Fe wnaeth ymchwil flaenorol a gynhaliwyd gan Independent Age ddangos y gallai tua 450,000 o bobl hŷn elwa o gynyddu nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Pensiwn a sicrhau bod pawb sydd â hawl iddo yn ei gael.[7]

[*] Mae lefel bresennol y Credyd Pensiwn wedi'i osod ar £177.10 yr wythnos ar gyfer un person, a fyddai'n cyfateb i £9,209.20 y flwyddyn.

Effaith y Pandemig Covid-19

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ac anghymesur ar lawer o bobl hŷn a bydd rhai, yn enwedig ymysg y gweithlu hŷn, wedi gweld newidiadau sylweddol yn eu hamgylchiadau ariannol. Er bod y Cynllun Cadw Swyddi yn golygu bod llawer o weithwyr hŷn wedi gallu cael eu rhoi ar ffyrlo am gyfnodau yn ystod y 18 mis diwethaf, wrth i'r cynllun ddod i ben, bydd llawer yn wynebu colli eu swyddi a diweithdra. Mae'r Comisiynydd wedi galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn cymorth penodol ar gyfer ceiswyr swyddi hŷn i'w cefnogi i barhau'n rhan o'r gweithlu o ystyried yr heriau penodol maen nhw'n eu hwynebu wrth ddod o hyd i waith a chael gafael ar gymorth sy'n diwallu eu hanghenion penodol.

Bydd rhai pobl hŷn sydd eisoes wedi colli eu swyddi o ganlyniad i'r pandemig wedi dechrau hawlio am y tro cyntaf erioed. Ym mis Ebrill 2021, roedd 17,832 o bobl dros 60 oed yn cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru, cynnydd o fwy na 100% ar y ffigurau ym mis Mawrth 2020.[8]

Mae Covid-19 hefyd wedi achosi cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau i Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru – grant i helpu i dalu am gostau hanfodol i'r rheini sy'n wynebu caledi ariannol eithriadol. Yn 2018/19, roedd 95,072 o geisiadau am y Taliad Cymorth Brys[9] sydd wedi cynyddu i 254,243 o geisiadau (hyd at fis Mai 2021), ac roedd 82% ohonynt yn ymwneud â Covid-19.[10]

Diwygiadau a datganoli pellach

Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn edrych ar sut mae'r system fudd-daliadau'n cael ei datblygu a'i darparu yng Nghymru. Fel yr amlinellwyd eisoes yn yr ymateb hwn, mae yna agweddau ar y system y mae'n rhaid eu diwygio os ydym ni am fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru mewn ffordd ystyrlon.

Mae yna gyfle i ddechrau sgwrs genedlaethol ynglŷn â sut y gellid diwygio'r system nawdd cymdeithasol a'i hail-ddychmygu fel system sy'n gweithredu fel rhwyd ddiogelwch i bawb ac y gall pawb fod yn falch ohoni. Mae angen i unrhyw ddiwygiad fynd i'r afael â'r stigma sy'n aml yn gysylltiedig â fframio'r system o ran 'lles' a 'budd-daliadau' a bod unrhyw un sy'n cael eu 'dal' yn y system rywsut ar fai am eu hamgylchiadau. Dylai unrhyw ddiwygiad geisio sicrhau bod pobl yn cael eu galluogi a'u hannog i gael y cymorth a'r hawliadau sydd eu hangen arnyn nhw i ffynnu fel dinasyddion.

Cynhaliwyd sgwrs debyg yn yr Alban lle'r oedd yr egwyddorion sylfaenol a ddaeth i'r amlwg yn rhai o urddas, parch a hawliau dynol a datganiad o berchnogaeth gyffredin o'r system wedi'i gynnwys mewn siarter.[11]

Os bydd y sgwrs honno hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd o ddatganoli mwy o bwerau dros y system i Gymru, yna bydd yn rhaid gwneud gwaith paratoi gofalus ac ystyrlon. Rhaid peidio â chyfrifo'r galw yn y dyfodol a chostau gweinyddu trosglwyddo pwerau mewn ffordd sy'n rhoi dinasyddion Cymru dan anfantais neu sy'n tanseilio'r gwaith o ddarparu system nawdd cymdeithasol yn effeithiol.

[1] Llywodraeth Cymru. (2020*). Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2018 i Fawrth 2019.* Ar gael ar: https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2018-i-fawrth-2019

[2] Independent Age. (2020). *Pension Credit: a closer look.* Ar gael ar: https://www.independentage.org/pension-credit-a-closer-look

[3] Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2021). *Credyd Pensiwn.* Ar gael ar: www.stat-xplore.dwp.gov.uk

[4] Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2021). *Credyd Pensiwn.* Ar gael ar: www.stat-xplore.dwp.gov.uk

[5] The Actuary. (2021) *Women set to suffer most if pensions triple lock is scrapped*. Ar gael ar: https://www.theactuary.com/news/2021/07/14/women-set-suffer-most-if-pensions-triple-lock-scrapped

[6] Sefydliad Joseph Rowntree. (2021). *A Minimum Income Standard for the United Kingdom in 2021*. Ar gael ar: https://www.jrf.org.uk/report/minimum-income-standard-uk-2021

[7] Independent Age. (2020) *Pension Credit take-up costing health, social care systems an extra £4 billion per year*. Ar gael ar: https://www.independentage.org/news-media/press-releases/pensioncredit-take-up-costing-social-care-systems

[8] Yr Adran Gwaith a Phensiynau. (2021). *Credyd Cynhwysol.* Ar gael ar: www.stat-xplore.dwp.gov.uk

[9] Llywodraeth Cymru. (2021). Crynodeb Ariannol y *Gronfa Cymorth Dewisol: 2018 i 2019.* Ar gael ar: https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/3/2/1614696033/crynodeb-ariannol-y-gronfa-cymorth-dewisol-2018-i-2019.pdf

[10] Llywodraeth Cymru. (2021*). Data cryno am coronafeirws (COVID-19) a'r ymateb iddo: 26 Mai 2021.* Available at: https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-26-mai-2021

[11] Social Security Scotland. (2021). *Our Charter*. Ar gael ar: https://www.socialsecurity.gov.scot/about/our-charter

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm gwaith achos ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran; atal cam-drin pobl hŷn; a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd eisiau i Gymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo.

Sut i Gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bostio: ask@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: @comisiwnphcymru